# Hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu amgylcheddau cadarnhaol a fydd yn gwella datblygiad corfforol, cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol ac ieithyddol babanod a phlant bach.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i greu a chynnal amgylcheddau diogel
2. meithrin a chynnal perthynas â babanod neu blant bach
3. ennyn diddordeb a sylw babanod neu blant bach gan ddefnyddio dulliau sy'n addas i'w ffafriaeth, eu hanghenion a'u cam datblygiadol
4. gweithio mewn partneriaeth â phlant bach, teuluoedd ac eraill i asesu a chytuno ar anghenion datblygiadol
5. gweithio mewn partneriaeth â phlant bach, teuluoedd ac eraill i ddatblygu a rhoi cynlluniau ar waith i fynd i’r afael ag anghenion datblygiadol
6. sicrhau bod amgylcheddau’n cefnogi cyfleoedd i fabanod neu blant bach chwarae o fewn fframweithiau datblygiadol neu’r cwricwlwm
7. darparu profiadau bwriadol ac ymatebol sy'n cefnogi datblygiad babanod neu blant bach
8. sicrhau bod adnoddau a lleoedd yn cefnogi profiadau cadarnhaol a rhyngweithiadau babanod neu blant bach
9. darparu arferion hyblyg o ddydd i ddydd i ysgogi a hybu datblygiad mewn amgylcheddau
10. ymateb i sgemâu datblygol babanod neu blant bach
11. cynnwys deunyddiau naturiol, cynaliadwy a phenagored mewn amgylcheddau i ysgogi chwilfrydedd a natur greadigol
12. hybu defnydd effeithiol o le i alluogi babanod neu blant bach i ddatblygu eu sgiliau corfforol ac ymarfer eu cyrff cyfan
13. sicrhau bod babanod a phlant bach yn gallu cael mynediad at brofiadau awyr agored yn rheolaidd
14. adnabod a dathlu ymdrechion a chyflawniadau babanod neu blant bach
15. nodi pwrpas ac amcanion arsylwi ar fabanod neu blant bach mewn amgylcheddau
16. cynnwys babanod neu blant bach yn y gwaith o arsylwi a chofnodi gwahanol agweddau datblygiad
17. gwerthuso cynnydd datblygiadol mewn amgylcheddau yn seiliedig ar dystiolaeth o arsylwadau a gwybodaeth gan eraill
18. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i fonitro ac adolygu cynnydd ac ymateb i newidiadau mewn dewisiadau, anghenion ac amgylchiadau
19. rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i blant bach, teuluoedd ac eraill am

weithgareddau a chynnydd datblygiadol

20. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod neu blant bach
21. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod neu blant bach

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. datblygiad cyn geni a ffactorau sy'n effeithio ar dwf y ffetws a datblygiad yr ymennydd
2. y patrymau disgwyliedig o ran datblygiad o adeg geni hyd at 21 oed
3. ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy'n effeithio ar ddatblygiad babanod a phlant bach
4. dylanwad diwylliant a chefndir ar hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach
5. sut mae darparu amgylcheddau cynnes, diogel ac anogol i fabanod a phlant bach mewn partneriaeth â theuluoedd
6. sut mae sicrhau bod gwybodaeth am amgylcheddau'n hygyrch
7. sut mae addasu amgylcheddau i sicrhau bod babanod a phlant bach yn gallu cymryd rhan yn gyfartal
8. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol mewn amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach
9. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach
10. rôl amgylcheddau ar berthnasoedd cyson, gofalgar a meithringar â babanod a phlant bach
11. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach
12. pwysigrwydd modelu a datblygu dysgu drwy gyd-destunau sy'n ystyrlon ac yn ddiddorol i fabanod a phlant bach
13. rôl chwarae o ran cefnogi datblygiad holistaidd mewn amgylcheddau
14. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol, llesiant, hyder a gwydnwch drwy amgylcheddau cadarnhaol
15. sut y gall amgylcheddau gefnogi'r newidiadau y gallai babanod a phlant bach fynd drwyddynt
16. cysyniad sgemâu a sut i ymateb i sgemâu datblygol babanod a phlant bach
17. gweithdrefnau eich gweithle ar gyfer arsylwi ac asesu, a sut mae'r rhain yn cysylltu â fframweithiau cwricwlwm neu ddatblygu
18. sut mae cynllunio lleoedd, profiadau a rhyngweithiadau yn yr amgylchedd ar gyfer datblygu a dysgu
19. sut mae dod o hyd i ddeunyddiau a chyfarpar sy'n hybu chwarae a datblygu, a

sut i'w defnyddio, gan ystyried cynaliadwyedd
20. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol mewn amgylcheddau i gwrdd ag anghenion babanod a phlant bach
21. egwyddorion asesiadau risg a rheoli risgiau amgylcheddau
22. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach
23. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach
24. theorïau sy'n berthnasol i hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach
27. sut y gall eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach, a sut i fynd i'r afael â hyn
28. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD353

Hybu amgylcheddau cadarnhaol ar gyfer babanod a phlant bach

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD353 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Amgylcheddau Cadarnhaol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |